

**Gwobr Ansawdd Genedlaethol
Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru**



**Welsh Network of Healthy School Schemes
National Quality Award**

**Adroddiad Gwobr Ansawdd Genedlaethol
ar yr ymweliad â
Ysgol Penybryn, Tywyn**

Dyddiad: Gorffennaf 14/15fed, 2018

Cyflwyniad

Llongyfarchiadau ar eich llwyddiant i dderbyn y Wobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru. Yr ydym yn falch iawn i gadarnhau bod Ysgol Penybryn yn cyfarfod â'r holl feini prawf ar gyfer y Wobr Ansawdd Genedlaethol. Mae'r meini prawf hyn wedi eu gosod allan yn erbyn 7 testun iechyd.

Mae ysgolion sydd yn llwyddo i dderbyn y Wobr Ansawdd Genedlaethol yn gweithredu mentrau sydd yn ymwneud â lles i'r safon uchaf. Yn yr adroddiad hwn yr ydym yn nodi cryfderau nodedig eich ysgol wrth i chi fynd ati i hyrwyddo lles pawb sydd yn ymwneud â'r ysgol. Mae'r adroddiad hefyd yn adnabod meysydd sydd angen ystyriaeth arnoch er mwyn datblygu ymhellach. Gobeithiwn bod yr adroddiad yn rhoi hwb i chi ac yn cynnig arweiniad defnyddiol fydd yn galluogi disgyblion a staff Ysgol Penybryn i barhau ac i ddatblygu rhai o'r mentrau rhagorol mae'r ysgol eisoes yn ei gweithredu fel eu bod hyd yn oed yn cael eu sefydlu ymhellach ym mywyd yr ysgol.

1. Bwyd a ffitrwydd (maeth a gweithgareddau corfforol)
2. Iechyd a lles Meddyliol ac Emosiynol gan gynnwys lles y staff
3. Datblygu personol a chydberthynas gan gynnwys addysg rhyw a pherthnasoedd
4. Defnyddio a chamdefnyddio sylweddau, gan gynnwys alcohol, ysmegu a chyffuriau (cyfreithiol, anghyfreithiol a phresgripsiwn)
5. Amgylchedd gan gynnwys eco-fentrau a gwelliannau i'r ysgol a'r amgylchedd ehangach
6. Diogelwch gan gynnwys agweddau amrywiol fel amddiffyn plant, diogelwch yr haul, diogelwch y rhyngwrdd a chymorth cyntaf

Hylendid gan gynnwys ar draws yr ysgol a thu hwnt

Am ragor o wybodaeth ar feini prawf GAG, ymwelwch â

<http://gov.wales/topics/health/improvement/schools/?skip=1&lang=cy>

Mae'r meini prawf yn cael eu cefnogi gan nifer o egwyddorion sylfaenol sef;

- Pwysigrwydd cyfranogiad y disgyblion yng nghraidd bywyd ysgol sydd yn effeithio ar les plant a phobl ifanc e.e. dysgu ac addysgu, amgylchedd, gofal bugeiliol
- Pwysigrwydd yr ymrwymiad a'r ddealltwriaeth sydd gan holl gymuned yr ysgol
- Bod agweddau iach tuag at iechyd yn bodoli
- Cyfiawnder Ecwiti
- Y cyswllt â rhaglenni a pholisiau cenedlaethol a lleol

Eurwen Hulmston

Crynodeb yr ymweliad

Mae holl staff yr ysgol yn ymwybodol o'r un neges, sef sicrhau bod pob disgybl yn derbyn addysg gytbwys a pherthnasol gydag iechyd a lles y disgyblion yn cael sylw dyladwy iawn a'r gofal a ddangosir tuag at y disgyblion yn amlwg yn holl weithgareddau'r ysgol. Yn ôl geiriau un rhiant, "mae'r ysgol yn hynod o ofalgar". Er fod yr ysgol yn un weddol fawr gyda dros 250 o ddisgyblion, mae'r ethos yn un cartrefol, di ffws a di ffwdan. Mae'r holl staff yn adnabod y disgyblion yn arbennig o dda ac yn gallu ymdrin gyda'r niferoedd o ddisgyblion bregus sydd y yr ysgol gyda doethineb a chydymdeimlad ond hefyd yn sicrhau bod y disgyblion eraill yn cael chwarae rôl bwysig ym mywyd yr ysgol. Mae gofal a charedigrwydd y disgyblion i'w weld o'r dosbarth meithrin i ddisgyblion Bl.6 a hefyd yng nghyfathrach y staff gyda'i gilydd a gyda holl gymuned yr ysgol a llawer o hyn yn tyfu o'r dull parchus y mae'r staff, o dan arweiniad gofalus a sensitif y pennaeth, yn ymdrin gyda'r disgyblion.

Mae'r cynllun Ysgolion Iach o fewn yr ysgol yn dangos ymagwedd ysgol gyfan yn gryf ac er bod gwaith y cydlynedd ysgol yn arbennig o dda, mae gwaith tîm yr ysgol i'w weld ym mhob agwedd o'r cynllun. Yn bendant roedd brwdfrydedd ac ymrwymiad y staff i'w weld yn glir yn yr holl waith a welsom yn ystod yr ymweliad. Bu'r ysgol yn weddol ddiweddar trwy rhai blynyddoedd caled iawn gyda'r adeilad yn cael eu hehangu a'r disgyblion wedi ei rhannu i wahanol safleoedd yn y dref, ond er hyn i gyd roedd gwaith yr ysgol iach wedi parhau, sy'n glod i ymrwymiad y pennaeth a'r staff i'r cynllun.

Un o'r agweddau cryfaf yn yr ysgol oedd y gwaith cwricwlaidd a welsom. Roedd holl agweddau'r cynllun Ysgol Iach wedi eu gwireddu a'u gwreiddio'n gryf yn hollol draws gwricwlaidd ar draws ystod oed yr ysgol a hyn ers cynifer o flynyddoedd. Adlewyrchwyd hyn hefyd yng ngwybodaeth y disgyblion o waith yr ysgol iach o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen i fyny i ddisgyblion Bl.6 – roeddynt i gyd yn gallu trafod bod yn iach yn hollol naturiol ac yn gwybod beth oedd yn bwysig i'w cadw yn iach.

Mae gwefan yr ysgol yn ddefnyddiol iawn ac yn llawn gwybodaeth ar ystod o agweddau i'r rhieni a'r plant. Mae'r ysgol hefyd yn defnyddio rhywfaint ar Trydar ac yn cysylltu gyda'r rhieni yn fisol gyda'r bwletin misol, sy'n llawn gwybodaeth. Defnyddir "Text to Parents" hefyd i atgoffa a gyrru negeseuon brys.

Ers y newidiadau i ehangu'r adeilad, mae'r ysgol wedi colli cryn dipyn o'r buarth caled sydd yn creu anawsterau i'r ysgol yn ystod tywydd gwlyb ond mae cae'r ysgol yn eang a'r disgyblion yn mwynhau hyn yn fawr ar hyn o bryd. Mae'r dosbarthiadau a'r coridorau yn llawn o wybodaeth ddiddorol ac yn fwrlwm o waith disgyblion gyda gwaith y grwpiau cyfranogiad yn derbyn sylw da.

Diolch yn fawr iawn i'r holl staff ar draws cymuned yr ysgol am yr holl waith caled ac am y croeso cynnes.

Uchafbwyntiau'r ymweliad

Bwyd a Ffitrwydd

- Mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion 2013. Mae gan y gegin ysgol radd o 5 gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
- Mae polisi ar waith sy'n gyfredol ac yn berthnasol. Mae polisi disgyblion hefyd ar gael.
- Hyfforddiant staff – Mae'r ysgol wedi cymryd unrhyw gyfle a roddwyd iddynt am hyfforddiant sydd ar gael ar fwyd a ffitrwydd e.e. Tatty Bumpkin, (yoga i'r blynyddoedd cynnar) llythrennedd corfforol ayb.
- Defnydd cryf iawn o fentrau cenedlaethol a lleol – yr ysgol yn manteisio ar lawer o gyfleoedd i gymryd rhan mewn rhaglenni /digwyddiadau ac ati, megis Cynllun Gwen, STEM, digwyddiadau nofio lleol, gymnasteg, pêl-droed, Newid am Oes, Arolwg ar Chwaraeon Ysgol, Ysgolion Iach, Urdd, yoga, Masnach Deg, Clwb Brecwast ayb.
- Mae staff y gegin ysgol yn cydweithredu'n dda iawn gyda'r ysgol ac mae'r berthynas dda yn cael ei adlewyrchu yn y nifer uchel o ddisgyblion sy'n manteisio ar brydau ysgol ac agwedd bositif disgyblion a staff tuag at brydau ysgol. Mae ansawdd y bwyd a ddarperir yn rhagorol.
- Safon uchel yr addysg ar fwyd a ffitrwydd a welwyd gyda defnydd rhagorol o gyfleoedd trawsgwricwlaidd. Roedd llyfrau gwaith y disgyblion a welwyd, yn dangos nid yn unig fod y disgyblion yn derbyn gwybodaeth ond gwerthuso a defnyddio sgiliau rhesymu. Mae disgyblion yn amlwg yn cymryd rhan ac yn deall pwysigrwydd bwyd a ffitrwydd wrth iddynt siarad amdano yn naturiol iawn ac mae'n amlwg bod yr agwedd yma wedi ei wreiddio yn eu bywyd ysgol ddyddiol.
- Mae cyfranogiad disgyblion yn dda gyda chynghor ysgol gweithredol a llysgenhadon chwaraeon.
- Mae clybiau ar ôl ysgol sy'n cynnwys Campau'r Ddraig yn boblogaidd ac yn cael eu mwynhau gan y disgyblion.
- Mae'r staff yn rhagorol am ymuno mewn digwyddiadau a gwersi o fewn yr ysgol e.e. cerdded milltir amser cinio gyda disgyblion, gemau yn ystod sesiynau addysg gorfforol. Mae staff yn fodolau rôl rhagorol i ddisgyblion - maent yn bwyta cinio ysgol neu ddewis iach lle gall disgyblion eu gweld. Anogir y disgyblion i roi cynnig ar bethau newydd a gwneir yn siŵr bod yr holl blant yn rhan o'r sesiynau e.e. gêm bêl-droed adeg egwyl, cwrs rhwystrau yn y Cyfnod Sylfaen.
- Gwneir gwaith yn rheolaidd ar becynnau bwyd iach cyn unrhyw drip ysgol ac mae rhieni'n nodi bod y neges hon yn cael ei chyfleu'n glir ac yn gryf.
- Y wefan ysgol yn cynnwys llawer o ddolenni asiantaethau allanol sy'n gallu darparu mwy o wybodaeth ar gyfer cymuned yr ysgol,
- Gyda'r lleihau digwyddodd i'r buarth caled doedd hi ddim yn bosib parhau gyda'r cynllun Dal i Fynd a fu mor llwyddiannus yn yr ysgol. Defnyddir y trac ar y cae pan fo'n bosib ond mae'r cynghor ysgol yn awyddus iawn i ail gychwyn y cynllun yn fwy ffurfiol ym mis Medi ac wedi bod yn cynllunio tuag at hyn.

Iechyd a Lles Emosiynol gan gynnwys lles staff

- Un o gryfderau'r ysgol yn bendant yw cynhwysiant. Mae pob un disgybl, beth bynnag yw eu hanawsterau yn cael yn union yr un cyfleoedd ac mae'r gofal a ddangosir tuag at y disgyblion

yn arbennig o dda. Mae iechyd a lles wedi bod yn flaenoriaeth yn y Cynllun datblygu Ysgol dros y dros y ddwy flynedd ddiweddaraf.

- Polisiâu yn gyfoes ac yn addas.
- Arddangosfeydd mewn ambell i fan yn y coridorau ac yn nhoiledau'r disgyblion o asiantaethau cymorth fel Childline a'r NSPCC. Llyfrau gwaith cartref y disgyblion yn cynnwys y wybodaeth yma hefyd.
- Yr ysgol wedi sicrhau bod staff yn derbyn unrhyw hyfforddiant oedd ar gael i gefnogi'r agwedd yma e.e. diogelwch y rhyngwyd, hyfforddiant atal radicaleiddio, hyfforddiant amser cylch yn dilyn cwrs i un aelod o'r staff gan Jenny Mosely a.y.b.
- Defnyddir y cynllun Talk About yn wythnosol gyda cymorthyddion wedi eu hyfforddi i arwain sesiynau.
- Cynghorau dosbarth ym mhob dosbarth gyda chynrychiolaeth o'r rhain yn aelodau o'r cyngor ysgol. Cofnodion trefnus yn cael eu cadw sy'n dangos y gwaith da y mae'r cyngor wedi ei gwblhau.
- Clybiau allgyrsiol diddorol i'r disgyblion.
- Yr ysgol wedi bod yn datblygu'r cynllun Meddylfryd Twf eleni a'r syniadaeth wedi ei dreiddio'n dda i mewn i fywyd dyddiol yr ysgol. Gwych oedd gweld disgyblion lleiaf y Cyfnod Sylfaen yn trafod y syniadau gyda'i gilydd ac yn cefnogi ei gilydd os oedd unrhyw un mewn trafferthion gyda'u gwaith. Mae'r syniad o wisgo coron sy'n adlewyrchu llwyddiant mewn ymagwedd fel dyfalbarhad, neu ymdrechgu gyda rhywbeth newydd ayb, yn gweithio'n arbennig o dda.
- Yr ysgol yn gweithredu ar lawer iawn o waith elusennol a llawer iawn o'r gwaith yma o dan arweiniad y cyngor ysgol.
- Defnyddir y cynllun Ysgol Deino yn y blynyddoedd cynnar ac agweddau o'r cynllun Webster Stratton ar waith trwy'r ysgol.
- Y cyngor ysgol yn cyflwyno holiaduron yn flynyddol i'r disgyblion ar lawer o agweddau o fywyd ysgol.
- Y Bydis Buarth yn gwneud eu gwaith yn gydwybodol iawn, ac yn ogystal â helpu ar amseroedd egwyl yn helpu cyfnod sylfaen pan fônt yn cael eu cinio.
- Cysylltiad da gyda'r ysgol uwchradd sy'n hwyluso'r gwaith trosglwyddo. Llawlyfr staff a llawlyfr i gymorthyddion cyflenwol ac unigolion ar brofiad gwaith ar gael yn yr ysgol.
- Mae bwletin wythnosol y pennaeth i'r staff yn hynod o ddefnyddiol ac yn ychwanegol i nodi gweithgareddau, gwbyodaeth am yr wythnos a dyddiadau'r tymor i ddod yn cynnwys diolchiadau i unigolion neu'r staff yn gyffredinol am waith penodol neu ddigwyddiad e.e. cyngherddau, ymweliadau preswyl, nosweithiau agored ayb.
- Ystafell staff gyfforddus, eang gyda byrddau gwaith, gwresogydd dwr poeth ayb.

Datblygu Personol a Pherthnasedd

- Polisi Addysg Rhyw yn dilyn y gofynion diweddaraf. Polisi disgyblion hefyd ar gael.
- Gwaith ar yr agwedd yma yn derbyn sylw dyladwy iawn. Y pecyn Tyfu i Fyny yn cael ei ddefnyddio fel sylfaen y gwaith yma trwy'r ysgol. Yr ysgol, dros y we, yn defnyddio'r holiadur sy'n cyd-fynd gyda'r pecyn i arfarnu'r gwaith.
- Polisi diogelu plant ar safwe'r ysgol ynghyd a'r llyfryn i rieni o'r pecyn Tyfu i Fyny.
- Hyfforddiant diogelu plant yn gyfoes i'r holl staff a derbyniodd y staff i gyd hyfforddiant ar y pecyn Tyfu i Fyny yn 2016. Trefnwyd noson ar Addysg Rhyw i rieni ym mis Mehefin 2017.
- Ymweliadau gan yr NSPCC a Hafan Cymru.
- Adnoddau addas i'r merched hyn mewn un toiled penodol, a'r merched yn ymwybodol o hyn.

Defnyddio a Chamddefnyddio Sylweddau

- Mae'r polisi o safon uchel ac yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau perthnasol a chyfredol. Mae gweithdrefnau a phrotocolau mewn lle gyda rhifau ffôn a gweithwyr proffesiynol i gysylltu â.
- Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant perthnasol ac mae'n dda gweld bod yr holl staff yn eistedd mewn sesiynau a ddarperir gan asiantaethau allanol ar sylweddau e.e. swyddog cyswllt yr heddlu, a Paid Cyffwrdd Dweud.
- Defnydd da o asiantaethau allanol fel Paid Cyffwrdd Dweud ayb, ac mae tystiolaeth yn dangos bod staff yn dilyn y sesiynau hyn yn yr ystafell ddosbarth gyda'u rhaglenni eu hunain i atgyfnerthu'r gwaith sy'n cael ei wneud.
- Mae gwaith y disgyblion o safon uchel iawn – nid gwybodaeth am sylweddau yn unig ond hefyd llawer o farn, rhesymu a gwerthuso'r hyn sy'n cael ei ddysgu.
- Darperir llawer o waith a gwybodaeth ar gyfer disgyblion ar gyffuriau, alcohol, ysmegu a e-sigaréts.
- Defnydd da o weithgareddau trawsgwricwlaidd i addysgu disgyblion am sylweddau e.e. gwaith gwyddoniaeth ar pam mae smygu yn ddrwg i'r corff, gwaith Saesneg yn rhoi datganiadau am sylweddau yn eu trefn, gwaith Cymraeg ar sylweddau, amser cylch – trafod sylweddau, celf – dylunio poster ar gyfer peidio ag ysmegu neu ddefnyddio e-sigaréts.
- Yr ysgol defnyddio'r pecynnau Allwedd i Alcohol ac Allwedd i Ymysgu.

Yr Amgylchedd

- Cynllun gweithredu manwl gan y Cyngor Gwyrdd.
- Yr ysgol wedi ennill gwobr Aur Cynllun Ysgolion Gwyrdd Ysgolion Gwynedd a Môn.
- Llauer iawn o waith cwricwlaidd da iawn yn cael ei gyflwyno ym mhob dosbarth yn yr ysgol ar wahanol agweddau o waith amgylcheddol.
- Clwb gwyrdd yn ystod y tymor tyfu.
- Gwaith arbennig o dda ar Y Fasnach Deg, a'r ysgol yn trefnu gweithgareddau yn ystod Pythefnos Masnach Deg.
- Bin ail gylchu dillad ar safle'r ysgol.
- Teithiau amgylcheddol lleol yn cael eu trefnu.
- Defnyddir arbenigwyr allanol i gefnogi gwaith y staff e.e. swyddog ail gychu sirol.
- Gwaith tyfu da iawn yng ngardd y blynyddoedd cynnar gyda ystod da iawn o lysiau a ffrwythau a'r disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am lawer o'r gwaith.

Diogelwch

- Llauer o bolisiau cyfoes ar gael i gefnogi'r agwedd yma gan gynnwys polisiau diogelu, polisi diogelwch yn yr haul, polisi meddyginiaethau, polisi diogelwch ar y we ayb.
- Staff wedi derbyn hyfforddiant diweddar ar agweddau e.e. diogelwch plant, diogelwch ar y we, cymorth cyntaf ayb.
- Defnyddir arbenigwyr i gefnogi gwaith y staff gyda e.e. Kerbcraft yn flynyddol, hyfforddiant beicio, gwasanaeth tân yn cynnal sgwrs gyda Bl. 2 a 5, Swyddog Cyswllt yr Heddlu, Hafan Cymru yn cyflwyno diogelwch personol ayb.
- Gwelwyd gwaith cwricwlaidd da ar yr agwedd yma eto gan gynnwys diogelwch ar y we, diogelwch personol, diogelwch ar lan y môr ayb. Bydd arbenigwr yn dod i mewn cyn diwedd tymor i gyflwyno diogelwch ar y rheilffordd.
- NSPCC i mewn yn cyflwyno gwaith ar ddiogelwch trwy'r cynllun PANTS.
- Diogelwch y we yn cael sylw blaengar yn y Cynllun Datblygu Ysgol cyfredol.

- Gweithdrefnau diogelwch cadarn yn yr ysgol – drysau allanol wedi ei cloi, ymwelwyr yn llofnodi i mewn ac allan ac yn gwisgo bathodynau, hysbyswrdd gyda darluniau'r staff yn y cyntedd, canran uchel o staff ar ddyletswydd ar amseroedd egwyl ayb.
- Noson ar ddiogelwch y we i rieni yn 2016.

Hylendid

- Ystod o bolisiau cyfredol i gefnogi'r agwedd yma gan gynnwys polisi toiledau.
- Toiledau'r ysgol yn daclus a glan, hyd yn oed ar ddiwedd y dydd.
- Y cyngor ysgol wedi penderfynu monitro'r toiledau , ac yn ystod amseroedd egwyl a chinio, rhaid i disgyblion gael llaw binc neu las i fynd i'r toiledau sydd wedi yn cael ei gyflwyno i'r monitoriaid. Y cyngor ysgol wedi gweld gwellhad mawr yn ymddygiad y disgyblion y toiledau ac yn dweud nad oes yna byth lanast yno nawr.
- Poster golchi dwylo yn amlwg ym mhob bloc toiled. ceir poster swyddogol a poster wedi eu creu gan ddisgyblion.
- Nyrs ysgol yn cynnig hyfforddiant ar olchi dwylo'n gywir gan ddefnyddio peiriant UV.
- Gwelwyd gwaith cwricwlaidd i gefnogi'r agwedd yma ar draws ystod oed yr ysgol. Bu disgyblion Bl.5 a 6 yn ymweld gyda ffatri fwyd leol a cawsant gyflwyniad ar hylendid gyda bwyd fel rhan o'r ymweliad.

Meysydd sydd angen ystyriaeth bellach

- Gallai ysgol o'r maint hwn elwa trwy gael grŵp iechyd ysgol a allai weithio efallai fel is-grŵp o'r cyngor yr ysgol.
- Cynyddu'r defnydd Trydar i hyrwyddo cysylltiadau gyda asiantaethau allanol a cyfeirio at y wefan er mwyn atgoffa rhieni o'r wybodaeth sydd ar gael yno. Hefyd gellid postio polisiau disgyblion ar y wefan.
- Os oes arian ar gael, ceisio cael hyfforddiant diogelwch bwyd i aelodau o'r staff sy'n gweithio gyda'r disgyblion.
- Ail gydio yn yr ardd ysgol ac efallai defnyddio arbenigedd allanol fel y Clwb Ffermwyr Ifanc neu'r clwb garddio lleol i helpu i gefnogi'r gwaith.
- Am eich bod wedi derbyn gwobr aur y cynllun Ysgolion Gwyrdd, efallai y byddai syniad da i chi ymuno nawr gyda'r Cynllun Ysgolion Eco, sydd yn gynllun fwy eang.
- Byddai cynnal noson arall i rieni ar ddiogelwch y we, gan gofio pa mor gyflym mae'r agwedd yma yn datblygu yn ddatblygiad da. Byddai defnyddio disgyblion i gefnogi arbenigwr yn y cyflwyniad yn syniad da.
- I ehangu eich cyfranogiad disgyblion ac i hefyd hybu diogelwch ar y we, byddai creu swyddi arweinwyr digidol o fysg y disgyblion yn ddatblygiad da. Hefyd gellid rhoi cyfrifoldeb i'r disgyblion hŷn i arwain sesiynau dawn ysgol gyfan, fyddai yn hybu ffitrwydd ac yn cyfrannu tuag at eich gwaith siarter iaith.
- Am fod yr offer yn yr ysgol yn barod, byddai ceisio gael arbenigwr i mewn i gyflwyno cymorth cyntaf a CPR i'r disgyblion hŷn yn ddatblygiad defnyddiol.
- Defnyddio Trydar i hyrwyddo mentrau cenedlaethol neu wybodaeth i rieni ar sylweddau e.e. gwefannau sy'n cysylltu â ' GIG-cyffuriau ' i gael gwybodaeth am gyffuriau sylweddau seicoweithredol, cyffuriau anghyfreithlon, ysmegu, e sigarêts a chyffuriau newydd.

- Gwaith ar ddiodydd egni gyda'r disgyblion, sut mae'r caffein a'r cynhwysion eraill yn gallu cael effaith ar eich corff e.e. ysgwyd, gormodedd o egni

Adborth i ddisgyblion

Annwyl ddisgyblion Ysgol Penybryn,
Diolch yn fawr iawn am wneud ein hymweliad yn un mor bleserus.
Roedd yn grêt i gael siawns i siarad gyda chymaint ohonoch ac roedd pawb yn garedig, hapus a chwrtais.

Roedd y cyflwyniad a gawsom gan gynrychiolwyr y cyngor ysgol, y cyngor gwyrdd, y bydis a'r cynghorau dosbarth yn dda ac fe gawsom lawer iawn o wybodaeth gennych. Rhaid rhoi diolch arbennig i'r disgyblion a'n harweiniodd ni ar ein taith o amgylch yr ysgol ac a gyflwynodd cymaint o wybodaeth wrth wneud hyn. Roedd yn amlwg trwy'r daith eich bod yn mwynhau eich amser yn yr ysgol ac yn frwdfrydig am, ac yn deall, gwaith yr ysgol iach. Roeddech yn hynod o falch o'ch ysgol. Roedd hyn i gyd yn gymorth i ni wrth asesu eich ysgol ar gyfer y Wobr Ansawdd.

Roedd hi'n brofiad hapus iawn cael dod i mewn i'ch dosbarthiadau a gwranddo ar y gwaith yr oeddech yn ei wneud. Mae gan holl ddisgyblion yr ysgol wybodaeth dda iawn am bwysigrwydd iechyd a sut i edrych ar ôl eich corff a chadw yn iach ac yn ffit. Un o'r pethau a sylwais fwyaf yn eich ysgol oedd bod pawb yn ymddangos mor hapus â chymaint o barch a ddangosir tuag at eich gilydd a tuag at holl gymuned yr ysgol. Roedd pawb yn ymddwyn yn dda a pharchus, yn hynod o gwrtais ac yn garedig i'ch gilydd.

Cawsom y cyfle i rannu cinio gyda chi ar y ddau ddiwrnod ac roedd pawb yn ymddwyn yn dda, roeddech unwaith eto yn hynod o gwrtais ac roedd y cinio, fel yr oeddech i gyd wedi dweud wrthym, yn flasus iawn. Rydych yn mwynhau'r clybiau ar ôl ysgol ac mae gennych ddewis diddorol gyda rhywbeth i bawb.

Fe wnaethom fwynhau ymweld gyda'r ysgol a chael rhannu dau ddiwrnod hyfryd gyda phawb acw. Daliwch ati gyda'r gwaith da a phob lwc i'r dyfodol.

Eurwen Hulmston